# Ysgol Abersoch

Cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021.

**Dogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc**

12 Ionawr – 23 Chwefror 2021

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach.

Y rheswm am hyn yw gan mai dim ond 10 o blant sydd yn yr ysgol.

Mae 2 o blant yn y meithrin a 8 o blant llawn amser.

Rydym eisiau gwybod sut yr ydych yn teimlo am y cynlluniau ar gyfer Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach

Mae'r llyfryn yma yn ceisio egluro beth fyddai'r newid yma yn ei olygu i chi fel disgybl.



# Beth yw pwrpas y newid?



Sicrhau trefn addysgol dda i'r dyfodol

Gwneud gwell defnydd o adnoddau e.e. Offer TG

Rhoi cyfle i chi gael dysgu a chwarae gyda phlant eraill o'r un oed

Cael dosbarthiadau o faint addas

# Beth yw'r cynnig?

Yr opsiwn sy'n cael ei gynnig yn ardal Abersoch yw cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.

Cau Ysgol Abersoch

→ Symud y disgyblion i Ysgol Sarn Bach



# Beth mae'r newid yma'n ei olygu?

**Os yw Cabinet y Cyngor yn penderfynu cau Ysgol Abersoch, byddai'n golygu…**

Yn lle mynd i Ysgol Abersoch, bydd disgyblion Ysgol Abersoch yn cael cynnig symud i Ysgol Sarn Bach sydd o gwmpas 2 filltir i ffwrdd.

**Mae'r Cyngor yn teimlo bydd y cynnig yma yn cryfhau addysg y plant i'r dyfodol.**

**Bydd symud i ysgol arall yn golygu:**

- Cyfle i gwrdd a ffrindiau newydd i chwarae a nhw
- Mwy o blant yr un oed a chi
- Mwy o blant i helpu eu gilydd
- Mwy o athrawon
- Rhoi profiadau teg i bob plentyn
- Pan ddaw'n amser i fynd i'r Ysgol Uwchradd, byddwch yn adnabod mwy o blant a fydd yn symud yno gyda chi.



# Camau

Cyfnod Ymgynghori Statudol
12 Ionawr – 23 Chwefror 2021

Cyfle i unrhyw un roi sylwadau ar y cynnig

Cabinet – Adrodd yn ôl i'r Cabinet gyda unrhyw sylwadau yr ydym wedi eu derbyn

Bydd Y Cabinet yn penderfynu os yw am fwrw mlaen gyda'r cynnig neu beidio

Os yw'r Cabinet am fwrw mlaen, dechrau 'Cyfnod Gwrthwynebu' am 28 diwrnod.

Bydd cyfle i chi, ac unrhyw un arall, wrthwynebu y cynnig yn ystod y cyfnod yma.

Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, y Cabinet yn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig

## Beth ydych chi'n feddwl o'r cynnig?

Cyn i Gyngor Gwynedd benderfynu ar y ffordd ymlaen, rydym eisiau clywed eich barn chi am y cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r plant yn Ysgol Sarn Bach.

## Sut ydych chi yn cael ymateb?

Mae croeso i unrhyw ddisgybl anfon sylwadau at y Cyngor i fynegi barn neu gwblhau holiadur.

Mae angen i'r Cyngor dderbyn eich sylwadau erbyn 23 Chwefror 2021.

## Angen mwy o wybodaeth?

- Am fwy o wybodaeth, copi o'r holiadur, a'r ddogfen ymgynghori, ewch ar safle wê'r Cyngor, sef: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg
- Gallwch gysylltu â'r Cyngor drwy e-bostio: Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru
- Gallwch anfon llythyr/sylwadau/holiadur drwy'r post neu e-bost erbyn **23 Chwefror 2021** at:

  Swyddfa Moderneiddio Addysg,<br>Pencadlys Cyngor Gwynedd,<br>Caernarfon,<br>Gwynedd,<br>LL55 1SE